**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CABINET**
Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Llun, 23 Hydref 2023 am 10.30 am.

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Aelodau Cabinet canlynol yn bresennol

Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd G Caple | Y Cynghorydd A Crimmings |
| Y Cynghorydd R Lewis | Y Cynghorydd C Leyshon |
| Y Cynghorydd M Norris | Y Cynghorydd B Harris |

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oed yn bresennol

Y Cynghorydd C Lisles
Y Cynghorydd K Morgan

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr P Mee, Prif Weithredwr
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr D Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr S Williams, Pennaeth Materion Buddsoddi Strategol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr P Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Mr N Elliott, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Ms A Richards, Cyfarwyddwr Dros Dro – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid
Ms C Jones, Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant
Mr T Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau TGCh a Digidol
Ms S Nowell, Pennaeth Materion Trawsnewid

### 50 Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Dirprwy Arweinydd, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Webber.

### 51 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

- Aeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol ati i

ddatgan buddiant personol mewn perthynas ag Eitem 3 (Trefniadau Comisiynu'r Dyfodol ar gyfer Gofal yn y Cartref): “Mae fy chwaer iau wedi gweithio mewn gofal cartref hirdymor ers blynyddoedd lawer”;

- Aeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion ati i ddatgan buddiant personol mewn perthynas ag Eitem 12 (Adroddiad Diweddaraf parthed y Strategaeth Tai Gwag): “Rydw i wedi derbyn Grant Eiddo Gwag”;
- Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth ati i ddatgan buddiant personol ac ariannol mewn perthynas ag Eitem 17 (Cynon Valley Waste Disposal Company Limited ac Amgen Rhondda Limited – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol): “Rydw i'n Gyfarwyddwr ar Amgen a byddaf yn gadael y cyfarfod pan fydd yr eitem destun trafodaeth a phleidlais.”; ac
- Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Gwella ati i ddatgan buddiant personol ac ariannol mewn perthynas ag Eitem 17: “Rydw i'n Gyfarwyddwr ar Amgen a byddaf yn gadael y cyfarfod pan fydd yr eitem destun trafodaeth a phleidlais.”

## 52 Cofnodion

**PENDERFYNODD** y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi, 2023 yn rhai cywir.

## 53 Trefniadau Comisiynu'r Dyfodol ar gyfer Gofal yn y Cartref

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad i'r Cabinet, a oedd yn gwneud argymhellion mewn perthynas â chomisiynu gwasanaethau gofal yn y cartref.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cyfarwyddwr am yr adroddiad a dywedodd ei fod wedi cyfarfod â swyddogion sawl gwaith, yn ogystal â'r Undebau Llafur, cyn i'r cynigion gael eu cyflwyno. Bwriad hyn oedd cael gwell dealltwriaeth o'r hyn y byddai TUPE yn ei olygu i staff ac unigolion.

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod cynigion y swyddogion a oedd gerbron yr Aelodau yn ceisio ymateb i'r galw cynyddol am ofal hirdymor yn y cartref, ac y byddai'n mynd i'r afael â phroblemau o ran capasiti y mae'r holl ddarparwyr yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet mai diben y dull arfaethedig yma yw cyflawni model cynaliadwy sydd ddim yn effeithio ar argaeledd y gwasanaeth ond yn hytrach yn ei wella, trwy alluogi trefniadau comisiynu hirdymor er mwyn gwella profiadau defnyddwyr a gweithwyr gofal yn y cartref.

Trwy roi'r dull newydd yma ar waith, byddai'r Cyngor yn parhau i helpu pobl i fod mor annibynnol â phosibl trwy barhau i ddarparu gwasanaeth ail-alluogi a gofal canolraddol ei hun.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet bod y Cyngor yn darparu rhan fach o ddarpariaeth gofal hir dymor yn y cartref yn Rhondda Cynon Taf, a byddai'r newid dan sylw'n golygu trosglwyddo'r 10% sy'n weddill i ddarparwyr allanol. Ychwanegodd y byddai gwasanaeth 'Cymorth yn y Cartref' y Cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaethau gofal ailalluogi a chanolraddol.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden wedi derbyn cwestiynau gan drigolion ynghylch yr effaith y gallai'r cynigion ei chael ar yr unigolion hynny sydd angen gofal mwy cymhleth. Trafododd yr Aelod o'r Cabinet y pryder na fyddai'r sector annibynnol yn cefnogi unigolion o'r fath a holodd a yw'r sector annibynnol, sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r cymorth ar hyn o bryd, yn cynnwys cefnogi'r anghenion gofal mwyaf cymhleth er mwyn sicrhau bod annibyniaeth yr unigolion hynny'n cael ei chynnal yn eu cartrefi eu hunain.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wrth yr Aelod o'r Cabinet fod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau gofal cartref hirdymor eisoes yn cael eu darparu gan ddarparwyr presennol yn y sector annibynnol. Aeth y Cyfarwyddwr ati i gydnabod pryderon y trigolion ond pwysleisiodd fod modd i ddarparwyr y sector annibynnol gefnogi llawer o unigolion ag anghenion cymhleth yn llwyddiannus, a'u bod yn gwneud hynny eisoes.

Gofynnodd yr Aelod o'r Cabinet hefyd am sicrwydd bod modd i staff y sector annibynnol fanteisio ar yr un lefel o hyfforddiant â staff y Cyngor. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod darparwyr annibynnol yn cael mynediad at yr un cyfleoedd o ran hyfforddiant a datblygiad trwy'r Bartneriaeth Datblygu Gweithlu Rhanbarthol, sy'n cael ei chynnal gan y Cyngor.

O ran y pwynt a wnaed am hyfforddiant a datblygiad, gofynnodd yr Arweinydd a oedd y darparwyr annibynnol yma eisoes yn manteisio ar yr hyfforddiant sydd ar gael? Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod cyfarfodydd gweithlu rhanbarthol yn cael eu cynnal bob chwarter, lle caiff cyflawniad ei fonitro o ran presenoldeb staff mewnol a staff y sector annibynnol mewn sesiynau hyfforddiant.

Gofynnodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Datblygi a fyddai'n bosibl i ddarparwyr annibynnol gael eu mandadu i gydnabod Undebau Llafur ac annog aelodaeth staff, pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo. Holodd yr Aelod o'r Cabinet a yw'r darparwyr annibynnol presennol yn cydnabod Undebau Llafur ac a ellid cynnwys hyn yn y broses aildendro ehangach wrth symud ymlaen, pe bai'r cynnig yn cael ei gefnogi. Dywedodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol, o ran y gofyniad, y gellid ei gynnwys yn y dogfennau tendro ond na fyddai o reidrwydd yn cael ei orfodi'n gyfreithiol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr, hyd eithaf ei wybodaeth, fod y sector annibynnol eisoes yn gweithio ochr yn ochr ag Undebau Llafur, felly nid oedd yn rhagweld unrhyw broblemau gydag awgrymiadau'r Aelod o'r Cabinet.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol y byddai goblygiadau ariannol y cynnig yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a gofynnodd am ragor o wybodaeth.

Nododd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Gwella fod yr adroddiad yn nodi'r gwahaniaeth fesul awr rhwng y sector annibynnol a'r gwasanaeth mewnol; a phwysleisiodd fod hyn yn seiliedig ar y cyfraddau presennol a orfodir. Eglurwyd, tra bod lluosi'r gwahaniaeth gyda nifer yr oriau a ddarperir gan y gwasanaeth mewnol ar hyn o bryd yn syml ac yn dod i gyfanswm o tua £1.5 miliwn, roedd angen ei ystyried yn y cyd-destun ehangach:

- Yr ymarfer ail-dendro, grymoedd y farchnad ac ymateb y sector annibynnol;
- Y trefniadau parth daearyddol newydd sy'n cael eu cynnig i'r farchnad;
- Y ffaith y byddai tendrwyr yn cael eu cyfarwyddo i dderbyn gofynion

TUPE ac aelodaeth barhaus o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer staff sy'n trosglwyddo.

Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ymlaen i egluro bod y materion uchod yn ei gwneud hi'n anodd rhagweld y goblygiadau ariannol gyda sicrwydd, er bod y cynnig fel y mae wedi'i becynnu yn rhoi model gweithredu mwy effeithlon i'r farchnad dendro amdano. Gorffennodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth drwy egluro i Aelodau'r Cabinet bod disgwyl gweld gwasanaeth mwy cost-effeithiol yn erbyn y bwlch cyllidebol o £35 miliwn a wynebir gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Aeth yr Aelod o'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd y Cyhoedd a Chymunedau ati i gydnabod y pryder ymhlith y gweithlu mewn perthynas â'r cynigion. Nododd yr Aelod o'r Cabinet, pe byddai'r cynigion yn cael eu cymeradwyo, y byddai staff cymwys yn cael eu trosglwyddo trwy TUPE. Holodd a fyddai amodau gwaith cyfredol yn cael eu diogelu ac a fyddai mynediad i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei sicrhau.
Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol y byddai TUPE yn diogelu telerau ac amodau cyflogaeth presennol y staff. Mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, dywedodd y Cyfarwyddwr, er nad yw rheoliadau TUPE yn nodi mynediad i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, y byddai'r Cyngor yn dilyn canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru ar TUPE, sy'n nodi bod Awdurdodau Lleol yn cynnwys mynediad i gynllun o'r fath. Felly, o gymeradwyo'r cynnig, byddai'r Cyngor yn cynnwys gofyniad o fewn unrhyw ddogfennaeth dendro a fyddai'n golygu y byddai staff yn parhau i gael mynediad i'r cynllun.

Holodd yr Arweinydd a fyddai'r pensiwn yn cael ei ddiogelu yn yr un modd â chynllun pensiwn y Cyngor, a gofynnodd am sicrwydd na fyddai unrhyw risg y byddai hyn yn cael ei newid yn y dyfodol. Dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai unigolion yn derbyn statws corff i gronfa bensiwn RhCT ac y byddai cyfle iddyn nhw drosglwyddo eu gwasanaeth i Gyngor RhCT i'r gronfa bensiwn newydd. Dywedodd y Cyfarwyddwr, cyn belled ag y gwyddai, unwaith y byddai statws corff derbyniedig wedi'i gyflawni, na fyddai unrhyw risg y byddai hyn yn cael ei newid yn y dyfodol. Serch hynny, dywedodd y byddai'n codi hyn gydag adain bensiynau'r Cyngor.*

Cwestiynodd yr Arweinydd a fyddai modd ymgorffori hyn yn y gwaith monitro contract er mwyn sicrhau nad yw pensiynau unigolion yn cael eu heffeithio'n andwyol. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol y gellid sicrhau, trwy wasanaeth monitro contractau mewnol y Cyngor, bod unrhyw ddarparwyr yn cydymffurfio â manyleb y tendr a manyleb y contract.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg fod pryderon wedi'u mynegi y byddai'r cynigion yn effeithio ar allu'r Cyngor i ymateb yn ddiogel i unrhyw argyfwng gofal cymdeithasol yn y dyfodol, a'i reoli.

Roedd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn hyderus y byddai'r farchnad yn gallu ateb unrhyw alw ar wasanaethau yn y dyfodol. Eglurodd y Cyfarwyddwr, yn ystod cyfnodau o bwysau cynyddol, fod y Cyngor eisoes yn gweithio gyda'r sector annibynnol i ateb y galw yn seiliedig ar angen a risg a aseswyd. Nodwyd, er y cynigiwyd bod y Cyngor yn trosglwyddo'r 10% sy'n weddill o'i wasanaethau gofal yn y cartref hirdymor mewnol i ddarparwyr sector annibynnol a gomisiynir, ni fyddai'r Cyngor yn lleihau capasiti cyffredinol

darpariaeth gofal yn y cartref hirdymor. Teimlai'r Cyfarwyddwr y byddai gwneud y newidiadau arfaethedig yn arwain at fwy o gapasiti a fyddai'n helpu i fynd i'r afael â phwysau cynyddol yn y dyfodol.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Datblygu am yr hinsawdd ariannol bresennol a'r sefyllfa a oedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i Aelodau wneud penderfyniadau anodd. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn modd mor effeithiol ac effeithlon â phosibl. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet mai lefel y gofal a ddarperir mewn cymunedau ddylai fod yn brif ystyriaeth, a bod yr adroddiad sydd gerbron yr Aelodau yn cynnig bod y Cyngor yn parhau i ddarparu'r holl ofal ailalluogi a chanolradd yn fewnol.

Gyda chytundeb yr Arweinydd, rhoddwyd caniatâd i'r Aelodau canlynol, sydd ddim yn Aelodau o'r Pwyllgor, annerch y Cabinet:

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K. Morgan
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol C. Lisles

Gyda chytundeb yr Arweinydd, rhoddwyd caniatâd i'r cynrychiolwyr canlynol ar ran Undebau Llafur annerch y Cabinet:

- Mr P Crews (Unison)
- Mr G Morgans (GMB)

Nodwch - Yn dilyn cyfraniadau'r siaradwyr a restrir uchod, rhoddwyd deiseb i'r Arweinydd mewn perthynas â'r mater.

Mewn ymateb i'r sylwadau a wnaed gan Aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor a chynrychiolwyr Undebau Llafur, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol nad oedd y Cyngor, hyd y gwyddai, wedi rhoi'r gorau i ddarparu pecynnau gofal mewnol ac y byddai'n ymchwilio i'r mater. O ran cyfathrebu a rhannu gwybodaeth, dywedodd y Cyfarwyddwr, o ystyried maint y gweithlu, ei bod hi'n anodd iawn sicrhau bod staff yn derbyn yr wybodaeth yn uniongyrchol ac ar yr un pryd. Serch hynny, yn yr achos yma, cysylltwyd â staff drwy'r ffôn symudol, ap ac e-bost; a chadarnhaodd bod y gwasanaeth wedi cysylltu â defnyddwyr gwasanaeth yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw hefyd. Er gwaethaf hyn, aeth y Cyfarwyddwr ati i gydnabod bod rhai defnyddwyr gwasanaeth yn effro i'r sefyllfa cyn rhai aelodau staff.

*Yn dilyn eglurhad ar gwestiwn yr Arweinydd o ran a fyddai'r pensiwn yn cael ei ddiogelu yn yr un modd â chynllun pensiwn y Cyngor, dywedodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol, yn rhan o'r statws corff a dderbynnir, y byddai Cytundeb Derbyn Cronfa Bensiwn yn cael ei roi ar waith. Eglurwyd bod y cytundeb yn ddogfen gyfreithiol rwymol rhwng y Darparwr, y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Rhwng hyn a geiriad y cytundeb TUPE, a fyddai'n cael ei gynnwys yn y dogfennau Tendr, ni fyddai'r Darparwr yn cael tynnu allan o'r Gronfa, felly byddai staff yn aros yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Aeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol ati i gydnabod y penderfyniad anodd oedd gerbron yr Aelodau. Serch hynny, nododd yr Aelod, pe bai'n cael ei gymeradwyo, y byddai'r awdurdod lleol yn parhau i ddarparu'r holl ofal ailalluogi a chanolradd yn fewnol; byddai hyn yn gwneud y sector yn fwy cydnerth, a dylai'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth mewn ffordd fwy cydgysylltiedig wella'r sefyllfa o ran recriwtio a chadw staff. Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn fodlon ar y cyngor a dderbyniwyd gan swyddogion yn y cyfarfod, a theimlai na fyddai'r cynlluniau'n cael unrhyw effaith ar lefel y gofal yn y gymuned.

Manteisiodd y Prif Weithredwr ar y cyfle i grynhoi'r sylwadau er mwyn cefnogi trafodaeth y Cabinet. Ailadroddodd y Prif Weithredwr fod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynghori'r Cabinet y byddai'r Cyngor, wrth ail-gomisiynu ei gefnogaeth hirdymor, yn symud i fodel mwy effeithlon sy'n sicrhau darpariaeth ar gyfer y trigolion mwyaf agored i niwed yn y dyfodol. Eglurodd y Prif Weithredwr mai cynnal ymarfer ailgomisiynu ar gyfer gofal a chymorth hirdymor ledled y Fwrdeistref Sirol oedd prif nod y cynnig, a dywedodd fod dyletswydd ar Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i adolygu'r model gweithredu ar adegau o'r fath er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben. Aeth y Prif Weithredwr ymlaen ac esboniodd y byddai'r cynnig yn symud i fodel gweithredu newydd ar gyfer gofal a chymorth, sy'n cynnwys y ddarpariaeth fewnol sy'n fach ond yn werthfawr iawn. Eglurodd y Prif Weithredwr, pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai'r drefn yn newid i fodel seiliedig ar ganlyniadau, a byddai parthau daearyddol yn cael eu creu er mwyn darparu'r gwasanaeth mwyaf effeithlon posibl. Bydd hyn yn arwain at wella'r capasiti, rhywbeth sydd wir ei angen ar y sector. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Cabinet y byddai'r staff yr effeithir arnynt yn cael eu diogelu'n llawn trwy'r trefniadau TUPE pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, ac y bydden nhw'n parhau i gael mynediad i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr na fyddai'r cynigion gerbron Aelodau'r Cabinet yn lleihau neu'n torri gwasanaethau gofal yn y cartref, ond yn diogelu'r gwasanaeth trwy fodel gwasanaeth mwy cydnerth yn ystod yr hinsawdd ariannol heriol.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden yn cydnabod y byddai'r newid arfaethedig yn achosi pryder ymhlith staff ond roedd yn gobeithio y byddai'r sicrwydd a roddwyd gan swyddogion yn y cyfarfod yn lleddfu'r pryderon i raddau. Roedd yr Aelod yn fodlon, ar sail yr wybodaeth yn yr adroddiad ac ymatebion swyddogion, na fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar y gofal a ddarperir.

Nododd yr Arweinydd na fyddai nifer fach o staff yn gymwys ar gyfer y trefniadau TUPE ac awgrymodd y dylid ychwanegu argymhelliad ychwanegol i sicrhau na fydd unrhyw ddiswyddiadau gorfodol yn cael eu dwyn ymlaen drwy weithredu'r cynigion yma. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol hyn ac eglurodd y byddai unrhyw unigolion y nodwyd eu bod yn anghymwys yn cael cynnig opsiynau megis adleoli ac ymddeol yn gynnar o wirfodd.

Cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud gan y Cabinet, pwysleisiodd yr Arweinydd bwysigrwydd cyfeirio at y tri phwynt a wnaed gan yr Aelodau yn y cyfarfod mewn perthynas â diogelu aelodaeth staff o fewn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yn ogystal â phwysigrwydd cydnabyddiaeth Undebau Llafur a sicrhau na fydd unrhyw ddiswyddiadau gorfodol. I sicrhau hyn, cynigiodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr argymhellion canlynol **ychwanegol** i'r Aelodau eu hystyried:

2.5 *Sicrhau bod y broses gaffael yn y dyfodol yn diogelu aelodaeth staff o fewn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;*
2.6 *Cynnwys cydnabyddiaeth o Undebau Llafur yn y broses gaffael;*
2.7 *Bod rhoi'r cynigion yma ar waith ddim yn arwain at unrhyw ddiswyddiadau gorfodol.*

Roedd yr aelodau'n fodlon ar y sicrwydd a'r argymhellion ychwanegol a gynigiwyd gan yr Arweinydd.

**PENDERFYNODD y Cabinet:**

1. Ystyried yr wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad hwn, yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (gan gynnwys y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol) a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg;
2. Cytuno bod **pob** gwasanaeth gofal canolraddol ac ailalluogi yn parhau i gael ei ddarparu gan wasanaeth 'Cymorth yn y Cartref' y Cyngor, fel sydd wedi'i nodi ym mharagraff 5.1 yr adroddiad;
3. Cytuno bod yr **holl** ofal yn y cartref hirdymor yn cael ei gomisiynu gan ddarparwyr gofal cartref allanol, yn rhan o broses ail-dendro llawn o'r contract fframwaith presennol a chontract newydd a gaiff ei ddyfarnu o 1 Hydref 2024, fel y nodir ym mharagraff 5.2 yr adroddiad;
4. Cymeradwyo'r gwaith o aildendro gofal yn y cartref hirdymor ar sail canlyniadau i'w cyflawni, a'i drefnu o fewn ardaloedd parth daearyddol penodedig fel y nodir ym mharagraff 5.6 yr adroddiad;
5. Dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, ar y cyd â'r Deiliad Portffolio, i ddyfarnu contractau ar ôl cwblhau'r broses aildendro, ac i wneud yr holl drefniadau angenrheidiol ar gyfer y trosglwyddiad dilynol.

Yn ogystal â'r argymhellion uchod (2.1 i 2.5) fel y'u cynhwyswyd yn yr adroddiad, **PENDERFYNODD y Cabinet:**

6. Cynnwys diogelu aelodaeth staff o fewn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn y broses gaffael;
7. Cynnwys cydnabyddiaeth i Undebau Llafur yn y broses gaffael;
8. Na ddylid bwrw ymlaen ag unrhyw ddiswyddiadau gorfodol drwy roi'r cynigion hyn ar waith.

## 54 Trefniadau Comisiynu'r Dyfodol ar gyfer Gwasanaeth Byw â Chymorth y Cyngor i Bobl ag Anabledd Dysgu

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol adroddiad sy'n gwneud argymhellion mewn perthynas â chomisiynu Gwasanaeth Byw â Chymorth y Cyngor i Bobl ag Anabledd Dysgu yn y dyfodol.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod gan y Cyngor brofiad sylweddol a hanes da o gomisiynu gwasanaethau Byw â Chymorth gan ddarparwyr allanol. Nodwyd bod y contract 10 mlynedd presennol yn dod i ben eleni felly mae'r broses aildendro eisoes wedi dechrau, a bydd y contract newydd yn dechrau o fis Ebrill 2024.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet y byddai'r newidiadau sy'n cael eu trafod gan y Cabinet, pe bydden nhw'n cael eu cymeradwyo, yn trosglwyddo'r ganran fach o wasanaethau Byw â Chymorth, sy'n cael eu darparu'n fewnol ar hyn o bryd, i'r farchnad allanol. Mae'r farchnad allanol eisoes yn darparu oddeutu 90% o'r gwasanaethau yma. Nododd yr Aelod o'r Cabinet fod swyddogion yn dweud y byddai'r newidiadau'n sicrhau gwerth gorau a chynaliadwyedd y gwasanaeth ar gyfer y dyfodol, a hynny heb leihau'r gwasanaeth i helpu pobl sy'n dibynnu arno. Pwysleisiodd yr Aelod o'r Cabinet bwysigrwydd hwn yng nghyd-destun y bwlch sylweddol yn y gyllideb, y pwysau cynyddol o ran costau, a'r galw cynyddol o fewn y gwasanaeth.

Holodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden sut y byddai'r

Cyngor yn ymgysylltu â'r unigolion yr effeithir arnyn nhw, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd, a staff.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai'r Cyngor, os cytunir ar y cynnig, yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r holl unigolion yr effeithir arnyn nhw er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael eu hysbysu'n llawn am y broses a'r amserlenni ar gyfer trosglwyddo'r gwasanaeth. Byddai hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth, gan gynnwys fformat hawdd ei ddarllen, a chynnal cyfarfodydd wedi'u cefnogi gan staff gwaith cymdeithasol ac eiriolwyr, fel Pobl yn Gyntaf Cwm Taf a Chanolfan Byw'n Annibynnol DEWIS ac, yn achos staff, Undebau Llafur. Ychwanegwyd y byddai'r Cyngor, yn dilyn y broses gaffael a dyfarnu'r contract, yn ymgysylltu â'r holl unigolion yr effeithir arnyn nhw i fynd i'r afael ag unrhyw bryder a allai fod gyda nhw ynghylch y newid darparwr. Byddai cyfleoedd hefyd i ddefnyddwyr gwasanaeth gwrdd â'r darparwyr newydd i drafod unrhyw bryderon.

Aeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd y Cyhoedd a Chymunedau ati i gydnabod y pryder ymhlith y gweithlu ynghylch y cynigion, a holodd a ellid rhoi'r un sicrwydd ag yn eitem olaf yr agenda (Cofnod Rhif 53), mewn perthynas â'r hyn y mae'r trefniadau TUPE yn eu golygu, a'r sicrwydd y mae'n ei roi. Gofynnodd yr Aelod o'r Cabinet hefyd a ellid darparu'r un sicrwydd o ran diogelu swyddi o ganlyniad i'r newidiadau, os cytunir arnynt.

Ochr yn ochr ag awgrym yr Aelod o'r Cabinet, gofynnodd yr Arweinydd a ellid rhoi'r un sicrwydd â'r eitem olaf o fusnes (Cofnod Rhif 53) mewn perthynas â dim diswyddiadau gorfodol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol y byddai'r un sicrwydd yn cael ei gymhwyso o ran y trefniadau TUPE ac aelodaeth staff o fewn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Dywedodd y Cyfarwyddwr, yn seiliedig ar adolygiad cychwynnol, y rhagwelwyd y byddai'r holl staff yn gymwys ar gyfer trefniadau TUPE ond pe na bai hynny'n wir, ni fyddai unrhyw ddiswyddiadau gorfodol yn cael eu cyflawni yn rhan o'r broses. Byddai staff yn cael cynnig opsiynau megis adleoli ac ymddeol yn gynnar o wirfodd.

Gofynnodd yr Arweinydd am sicrwydd nad oedd y tri darparwr a fyddai'n tendro yn gwmnïau sector preifat a'u bod yn gwmnïau nid er elw, a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr hynny.

Yn debyg i'r mater blaenorol, nododd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol y byddai goblygiadau ariannol y cynnig yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a gofynnodd am ragor o wybodaeth.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Gwella fod yr adroddiad yn amlygu'r gwahaniaeth yn y gyfradd fesul awr ar hyn o bryd rhwng y sector annibynnol a'r gwasanaeth mewnol, ac o'i gymhwyso i nifer yr oriau a ddarperir ar hyn o bryd gan y gwasanaeth mewnol, mae hyn yn cyfateb i arbediad amcangyfrifedig o tua £650,000 y flwyddyn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai'r arbediad amcangyfrifedig yn ddibynnol ar nifer o amodau a bod angen ei ystyried yng nghyd-destun ehangach y pwyntiau a wnaed wrth drafod yr eitem flaenorol o ran:

- Yr ymarfer aildendro, grymoedd y farchnad ac ymateb y sector annibynnol;

- Y ffaith y byddai tendrwyr yn cael eu cyfarwyddo gan y Cyngor i dderbyn gofynion TUPE ac aelodaeth barhaus o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer staff sy'n trosglwyddo;
- O ran byw â chymorth yn benodol, mae pob cynllun yn cael ei lywio gan wahanol gymhlethdodau o ran angen, gyda nifer yr oriau o gymorth sydd eu hangen yn ddibynnol ar hynny.

Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ymlaen i egluro bod y materion uchod yn ei gwneud hi'n anodd rhagweld y goblygiadau ariannol gyda sicrwydd, ond y disgwyl oedd y byddai'r cynnig, ochr yn ochr â'r broses aildendro sydd ar y gweill gyda'r sector annibynnol ar gyfer contractau presennol, yn rhoi cyfle am wasanaeth mwy cost-effeithiol yn erbyn y bwlch cyllidebol o £35 miliwn a wynebir gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Gofynnodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg a fyddai defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd yn gweld newid yn y nifer fach o leoliadau y mae'r Cyngor yn eu darparu ar hyn o bryd.

Sicrhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol y Cabinet na fyddai'r cynnig, pe cytunir arno, yn golygu unrhyw newid i gartref yr unigolyn yr effeithir arno nac i lefel y gofal a'r cymorth y mae'n ei dderbyn. Eglurwyd y byddai'r trefniadau TUPE hefyd yn golygu y byddai staff cymwys a gyflogir yn y 9 cartref byw â chymorth mewnol sy'n weddill yn cael eu trosglwyddo i'r darparwyr newydd sydd wedi'i gomisiynu. Byddai hyn yn helpu i gynnal sefydlogrwydd i’r unigolyn yn ogystal â pharhad o ran cymorth staff wrth ddarparu gweithgareddau, gofal a chymorth yn ystod unrhyw gyfnod pontio.

Nododd y Cyfarwyddwr fod pobl ag anableddau dysgu wedi bod yn rhan o'r gwaith o lunio'r dogfennau contract newydd a'r fethodoleg werthuso, a fyddai'n helpu i sicrhau bod y gwasanaeth cywir sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei gomisiynu, a hwnnw'n wasanaeth mwy cyson a theg ar draws Rhondda Cynon Taf.

Gofynnodd yr Arweinydd a oes gan unigolion yn yr eiddo eu tenantiaethau eu hunain, a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr hynny. Dywedodd y Cyfarwyddwr, yn rhan o'r cynnig, na fyddai'r trefniadau tenantiaeth yn newid i'r unigolion, dim ond y darparwr gofal, a hynny'n rhan o ymarfer caffael.

Gyda chytundeb yr Arweinydd, cafodd yr Aelod nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K. Morgan, gyfle i annerch y Cabinet.

Yn yr un modd â'r mater blaenorol a drafodwyd, cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud gan y Cabinet, pwysleisiodd yr Arweinydd bwysigrwydd cyfeirio at y tri phwynt a wnaed gan yr Aelodau yn y cyfarfod mewn perthynas â diogelu aelodaeth staff o fewn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yn ogystal â phwysigrwydd cydnabyddiaeth Undebau Llafur a sicrhau na fydd unrhyw ddiswyddiadau gorfodol. I sicrhau hyn, cynigiodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr argymhellion canlynol **ychwanegol** i'r Aelodau eu hystyried:

*2.4 Sicrhau bod y broses gaffael yn y dyfodol yn diogelu aelodaeth staff o fewn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;*
*2.5 Cynnwys cydnabyddiaeth o Undebau Llafur yn y broses gaffael;*
*2.6 Bod rhoi'r cynigion yma ar waith ddim yn arwain at unrhyw ddiswyddiadau gorfodol.*

Roedd yr Aelodau'n fodlon ar yr wybodaeth yn yr adroddiad, ymatebion swyddogion a'r argymhellion ychwanegol a gynigiwyd gan yr Arweinydd.

PENDERFYNODD **y Cabinet:**

1. Ystyried yr wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad hwn, yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (gan gynnwys y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol) a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg;
2. Cymeradwyo trosglwyddo'r naw Gwasanaeth Byw â Chymorth sy'n weddill gan y Cyngor ar gyfer pobl ag anabledd dysgu i ddarparwyr arbenigol drwy aildendro contract Byw â Chymorth presennol y Cyngor, yn dechrau o fis Ebrill 2024;
3. Dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, ar y cyd â'r Deiliad Portffolio, i ddyfarnu contractau ar ôl cwblhau'r broses aildendro, ac i wneud yr holl drefniadau angenrheidiol ar gyfer y trosglwyddiad dilynol.

Yn ogystal â’r argymhellion uchod (2.1 i 2.3) fel y’u cynhwysyd yn yr adroddiad,
**PENDERFYNODD y Cabinet:**

4. Cynnwys diogelu aelodaeth staff o fewn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn y broses gaffael;
5. Cynnwys cydnabyddiaeth i Undebau Llafur yn y broses gaffael;
6. Na ddylid bwrw ymlaen ag unrhyw ddiswyddiadau gorfodol drwy roi'r cynigion hyn ar waith.

## 55 Adborth Pwyllgorau (Rhag-graffu)

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu adborth a sylwadau mewn perthynas â'r eitemau y rhag-graffwyd arnyn nhw gan Bwyllgorau Craffu thematig y Cyngor yn dilyn cyfarfodydd diweddaraf y Pwyllgorau.

Yn ystod y cylch, rhag-graffwyd yr adroddiadau canlynol a nodwyd y sylwadau allweddol yn Adran 5 o’r adroddiad:

- Cynnig i Ddatblygu Ysgol Arbennig Newydd Yn Rhondda Cynon Taf;
- Adroddiadau Blynyddol ar Weithdrefnau Rhoi Sylwadau, Canmol a Chwyno 2022/23;
- Adroddiad Monitro Blynyddol yr Ardoll Seilwaith Cymunedol.

Mewn perthynas ag Adroddiad Monitro Blynyddol yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a oedd yn destun rhag-graffu gan y Pwyllgor Craffu ar Faterion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant yn ei gyfarfod ar 18 Hydref 2023, nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod sylwadau wedi’u dosbarthu i Aelodau’r Cabinet.

Manteisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg ar y cyfle i ddiolch i'r Pwyllgorau Craffu am eu gwaith.

**PENDERFYNODD y Cabinet:**

1. Nodi sylwadau'r Pwyllgorau Craffu yn dilyn rhag-graffu ar yr eitemau a restrir yn adran 5 o'r adroddiad.

**56 Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg 2022/2023**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg 2022/23 i'r Cabinet.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cydnabod pwysigrwydd yr adroddiad, sy'n ceisio sicrhau bod unigolion o bob oed yn cael eu diogelu; ac yn atal niwed a chamdriniaeth. Nododd yr Aelod o'r Cabinet fod gan Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg ddyletswydd statudol i ddarparu adroddiad blynyddol sy'n amlinellu ei flaenoriaethau.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet y galw cynyddol i wella ymagweddau at bryderon y sector cyhoeddus a dywedodd fod gan yr holl asiantaethau partner eu rhan i'w chwarae.

**PENDERFYNODD y Cabinet:**

1. Nodi a chadarnhau cynnwys yr Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg 2022/23.

**57 Adroddiad Blynyddol 2022/23 ar weithdrefnau rhoi sylwadau, canmol a chwyno'r Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol adroddiad sy'n rhoi trosolwg i'r Cabinet o drefnau gweithredu ac effeithiolrwydd gweithdrefnau cwyno Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r Cyfarwyddwr am yr adroddiad a dywedodd fod cwynion a chanmoliaeth yn adborth gwerthfawr, sy'n llywio'r gwaith o wella a chynllunio'r gwasanaethau. Ychwanegodd yr Aelod o'r Cabinet ei bod hi'n galonogol i staff dderbyn canmoliaeth am eu holl waith caled a'u hymroddiad.

**PENDERFYNODD y Cabinet:**

1 .Nodi cynnwys yr adroddiad yma ac adroddiad Sylwadau a Chwynion Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2022/23; a

2. I nodi'r gwaith a wnaed gan y Garfan Adborth Cwsmeriaid, Ymgysylltu a Chwynion.

**58 Cynllun Adborth Cwsmeriaid - Rhoi Sylwadau, Canmol a Chwyno - Adroddiad Blynyddol 2022/23**

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau TGCh a Digidol drosolwg i'r Cabinet o drefnau gweithredu ac effeithiolrwydd Cynllun Adborth Cwsmeriaid (CFS) y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

Pwysleisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau

Corfforaethol bwysigrwydd adborth cwsmeriaid, ac roedd yn falch o nodi yr ymdriniwyd â 95% o gwynion yng ngham 1. Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn cydnabod bod y garfan bob amser yn chwilio am ffyrdd newydd o gasglu gwybodaeth a nododd fod y gwasanaeth 'Dywedoch Chi, Gwnaethon Ni' yn mynd o nerth i nerth.

**PENDERFYNODD y Cabinet:**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad, Adroddiad Blynyddol y Cynllun Adborth Cwsmeriaid ar gyfer 2022/23 a'r gwaith a wnaed gan y Garfan Adborth Cwsmeriaid, Ymgysylltu a Chwynion.

## 59 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Llythyr ac Adroddiad Blynyddol 2022-2023

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd wybod i'r Cabinet am gyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ('PSOW') i'r Cyngor yma ar gyfer 2022-2023.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg i'r Cyfarwyddwr am yr adroddiad a dywedodd fod yr adroddiad yn caniatáu i Aelodau'r Cabinet adolygu a monitro sut mae'r Cyngor yn rheoli'r adborth y mae'n ei dderbyn. Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn falch o nodi, o ystyried maint yr Awdurdod Lleol, bod nifer fach o gwynion wedi'u gwneud a nifer fach wedi'u cyfeirio at yr Ombwdsmon.

**PENDERFYNODD y Cabinet:**

1. Trafod a nodi Adroddiad Blynyddol a Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r Cyngor yma ar gyfer 2022-2023.

## 60 Cynigion i ddatblygu Ysgol Arbennig newydd yn RhCT

Rhannodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ganlyniad yr ymgynghoriad diweddar mewn perthynas â’r cynnig i agor ysgol arbennig 3 i 19 oed newydd yn Rhondda Cynon Taf (RhCT) a chyflwyno dalgylchoedd ar gyfer pob un o'r ysgolion arbennig 3-19 oed ar draws RhCT, sef:

- Ysgol Arbennig Park Lane
- Ysgol Hen Felin
- Ysgol Tŷ Coch

Tynnwyd sylw'r aelodau at Atodiad A yr adroddiad, a oedd yn manylu ar ganlyniad yr ymgynghoriad.

Hysbysodd y Cyfarwyddwr yr Aelodau fod y dogfennau yn nodi bod 38% yn erbyn y cynigion, ond y dylen nhw nodi 37%. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ar y cyfan, yn gadarnhaol gyda 56.5% o blaid y cynigion, a phwysleisiodd ei bod hi'n ymddangos bod rhai o'r rhieni/cynhalwyr wedi camddeall y cynigion, a ddangoswyd yn Adran 5 y ddogfen ymgynghori. Pwysleisiwyd felly, o ganlyniad i'r cynigion, na fyddai

unrhyw ysgolion yn cau ac y byddai'r plant mewn lleoliadau presennol yn aros yn eu hysgolion presennol.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg i'r swyddogion am gynnal yr ymgynghoriad a diolchodd i unigolion am eu hymatebion. Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn fodlon bod swyddogion wedi gallu ateb a mynd i'r afael ag unrhyw bwyntiau a godwyd drwy'r ymgynghoriad, gan gynnwys rhai Estyn.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn fodlon mai'r cynnig i ddatblygu ysgol arbennig newydd oedd y cam cywir ymlaen ac y byddai'n ehangu'r capasiti mewn maes lle mae galw cynyddol. Pwysleisiodd yr Aelod o'r Cabinet na fyddai angen i ddisgyblion sydd eisoes yn mynychu ysgolion arbennig o fewn RhCT symud ysgolion ac, pe byddent yn cael eu cymeradwyo, byddai dalgylchoedd newydd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer trefniadau yn y dyfodol.

Roedd yr Arweinydd o blaid y cynigion a dywedodd y byddai'r ysgol arbennig yn fuddsoddiad enfawr, yr oedd dirfawr ei angen.

**PENDERFYNODD y Cabinet:**
1. Nodi cynnwys yr adroddiad;
2. Nodi'r wybodaeth sydd yn yr Adroddiad Ymgynghori, sy'n cynnwys crynodeb o'r ohebiaeth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, gan gynnwys yr ymateb llawn gan Estyn, adborth a dderbyniwyd o'r arolwg ar-lein, a nodiadau o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd;
3. Symud y cynigion ymlaen i gam nesaf y broses ymgynghori trwy gyhoeddi Hysbysiad Statudol priodol a fydd yn sbarduno dechrau'r Cyfnod Gwrthwynebu.

## 61 Monitro Blynyddol Ardoll Seilwaith Cymunedol 2022/2023

Ceisiodd Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu gymeradwyaeth y Cabinet mewn perthynas â chynnwys Adroddiad Monitro Blynyddol yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a'r newidiadau arfaethedig i Restr Rheoliad 123. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi gwybod i'r Cabinet am y camau cyn y cam craffu sydd wedi'u cyflawni gan y Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad mewn perthynas â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Datblygu yn fodlon ar yr argymhellion yn yr adroddiad. Nododd yr Aelod o'r Cabinet ystyriaethau'r Pwyllgor Craffu ac edrychodd ymlaen at dderbyn adborth gan y Cynghorau Cymuned.

**PENDERFYNODD y Cabinet:**
1. Cymeradwyo'r Adroddiad Monitro Blynyddol ynghylch yr Ardoll Seilwaith Cymunedol;
2. Cymeradwyo'r Rhestr Rheoliad 123 (Atodiad B) wedi'i diwygio ar gyfer ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor am gyfnod o 28 o ddiwrnodau ar gyfer ymgynghori, fel y nodwyd ym mharagraff 5.6 yr adroddiad;
3. Cymeradwyo mabwysiadu'r Rhestr Rheoliad 123 os nad oes sylwadau yn ei wrthwynebu yn dod i law.

Nodwch - Ar ôl i'r eitem hon ddod i ben, mae'r Cabinet yn oedi am egwyl fer.

## 62 Adroddiad Diweddaraf parthed y Strategaeth Tai Gwag

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu adroddiad sy'n rhoi'r diweddaraf i Aelodau am y cynnydd o ran ailddefnyddio cartrefi gwag yn unol â Strategaeth Cartrefi Gwag (2022-2025).

Soniodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Datblygu am lwyddiant y rhaglen i gael cartrefi yn ôl ar y farchnad neu eu gwneud nhw'n addas i'w defnyddio eto. Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn falch o nodi bod ychydig llai na 700 eiddo wedi cael eu hailddefnyddio hyd yma, ac roedd yn falch o gynnig yr argymhellion yn yr adroddiad.

**PENDERFYNODD y Cabinet:**

1. Ystyried y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd cadarnhaol a wnaed hyd yma o ran dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd yn unol â Strategaeth Tai Gwag RhCT (2022 – 2025).

## 63 Strategaeth Rhentu'r Sector Preifat 2023-26

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu adroddiad sy'n rhoi trosolwg o Strategaeth Rhentu'r Sector Preifat 2023 -2026 arfaethedig ac sy'n ceisio cymeradwyaeth i'w gweithredu.

Soniodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Datblygu yn gadarnhaol am y gwaith a wnaed mewn perthynas â'r sector rhentu preifat gyda landlordiaid RhCT; a nododd fod RhCT wedi bod yn rhagweithiol wrth ddarparu cyngor gyda gofynion a chanllawiau deddfwriaeth. Ychwanegodd yr Aelod o'r Cabinet ei ddiolch i swyddogion a dywedodd ei fod wedi derbyn canmoliaeth ar eu rhan.

Adleisiodd yr Aelod Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd y Cyhoedd a Chymunedau y sylwadau ac roedd yn cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad.

**PENDERFYNODD y Cabinet:**

1. Cymeradwyo Strategaeth arfaethedig Rhentu'r Sector Preifat 2023-26 sy'n cefnogi darparu sector rhentu preifat sy'n cynnig llety diogel, fforddiadwy, sydd wedi'i reoli'n dda ac o safon dda, gan greu tenantiaethau hygyrch a chynaliadwy.

## 64 Ymgysylltu mewn perthynas â Chyllideb y Cyngor - 2024-2025

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod i'r Cabinet am y dull arfaethedig o ymgysylltu ac ymgynghori â thrigolion ynglŷn â phroses pennu cyllideb 2024/25.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai cyllideb y flwyddyn nesaf yn debygol o fod yr un fwyaf heriol i RhCT ers ei gyfnod fel Arweinydd y Cyngor; a phwysleisiwyd y byddai ymgysylltu â'r cyhoedd yn hollbwysi. Dywedodd yr Arweinydd, oni bai bod Llywodraeth y DU yn cyhoeddi cyllid ychwanegol yn ei gyllideb yn yr Hydref, y byddai'r canlyniadau i Gymru a'i Hawdurdodau Lleol yn anodd iawn. Dywedodd yr Arweinydd, yn dilyn arolwg, ledled Lloegr, y byddai o leiaf 26 Awdurdod Lleol o bosibl yn cyhoeddi 114 o hysbysiadau yn y flwyddyn nesaf; ac er bod RhCT ymhell i ffwrdd o gyhoeddi hysbysiad, byddai rheoli'r gyllideb a'r adnoddau yn ofalus yn fater hollbwysig.

Ychwanegodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol ei bod hi'n debygol y byddai'n flwyddyn a fyddai'n gofyn am sgwrs onest gyda thrigolion ynglŷn â'r her enfawr sy'n wynebu'r Cyngor.

**PENDERFYNODD y Cabinet:**

1. Cefnogi gwaith pellach i ddatblygu a pharhau â'r dull o ran yr ymgynghoriad ar gyllideb y Cyngor a gafodd ei gyflwyno yn ddiweddar, gan ddefnyddio gwefan Dewch i Siarad y Cyngor a threfniadau ymgysylltu wyneb yn wyneb â'r gymuned. Yn rhan o'r dull sydd wedi'i awgrymu, byddwn ni'n parhau i ddarparu ffyrdd eraill o ymgysylltu â'r rheiny heb fynediad i'r rhyngrwyd, neu sy'n ei chael hi'n anodd cysylltu â'r rhyngrwyd, a'r rheiny sy'n hoffi ymgysylltu trwy ddulliau traddodiadol;
2. Cefnogi gofynion statudol y Cyngor parthed ymgynghori ar y Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor a lefelau Treth y Cyngor, a chaiff y rhain eu bodloni trwy'r dull arfaethedig;
3. Cefnogi lansio ymgynghoriad cyllideb cam 1 yn ystod hydref 2023, cyn amserlenni setliad cyllideb dros dro Llywodraeth Cymru, a ddisgwylir ar hyn o bryd tua chanol mis Rhagfyr;
4. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu i gynllunio'n fanwl yr amserlen angenrheidiol ar gyfer ymgysylltu, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet a'r Dirprwy Brif Weithredwr priodol a'r Cyfarwyddwr Cyfadran ar gyfer Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen.

## 65 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad

**PENDERFYNWYD:** "Bod y cyfarfod yma yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff xx o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

## 66 Dileu dyledion nad oes modd eu casglu

Yn dilyn trafodaeth am adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 (fel y'i diwygiwyd), sef gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol unrhyw rai penodol (gan gynnwys yr

awdurdod sy'n dal yr wybodaeth honno), **PENDERFYNODD y Cabinet:**

1. Dileu'r cyfrifon sydd wedi'u nodi yn y Ddarpariaeth o Ddyledion sydd wedi'i chynnwys yng nghyfrifon y Cyngor (gan geisio taliad os daw rhagor o wybodaeth am unrhyw ddyled i'r amlwg).

**67 CYNON VALLEY WASTE DISPOSAL COMPANY LIMITED AC AMGEN RHONDDA LIMITED – CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL**

Yn dilyn trafodaeth am adroddiad y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 (fel y'i diwygiwyd), sef gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol unrhyw rai penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal yr wybodaeth honno), **PENDERFYNODD y Cabinet:**

1. Bod y bwriad cyfredol i barhau i weithredu Cynon Valley Waste Disposal Company Limited ac Amgen Rhondda Limited (y 'Cwmnïau') yn gwmnïau dan reolaeth yr Awdurdod Lleol yn y dyfodol wedi'i gadarnhau;
2. Yn amodol ar fodloni'r Dirprwy Brif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyfadran - Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen nad oes unrhyw afreoleidd-dra yng nghyfrifon y Cwmnïau y dylid derbyn y cyfrifon ar ran y Cyngor;
3. Penodi Azets Audit Services yn archwilwyr i'r Cwmnïau am y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024.
4. Bod Cyfarwyddiaethau'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth a'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella ar y ddau Gwmni yn parhau;
5. Nodi parhad swydd cyfarwyddwr anweithredol ar Fwrdd y Cwmnïau hyd at Gyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol 2024;
6. Awdurdodi Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ac/neu ei enwebai i arfer pleidlais y Cyngor yng Nghyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol y Cwmnïau yn unol ag argymhellion 2(ii) i 2(iv) uchod; a
7. Bydd Aelod o'r Cabinet yn cynrychioli'r Cyngor yng Nghyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol y Cwmnïau.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.48 pm**

**Y Cynghorydd A Morgan**
**Cadeirydd.**